GWNEUD I ETHOLIADAU DDIGWYDD

Mae ein democratiaeth yn dibynnu ar filoedd o bobl sy'n gweithio ar y diwrnod pleidleisio.

Gallwch wasanaethu eich cymuned wrth ennill sgiliau newydd i'ch helpu i ddatblygu'ch gyrfa, a chael eich talu am eich amser.

Y Comisiwn Etholiadol

Gweithiwch yn eich gorsaf bleidleisio leol a byddwch yn rhan o'r gweithredu.

O sefydlu'r orsaf bleidleisio, i gyhoeddi papurau pleidleisio a helpu pleidleiswyr, byddwch yn sicrhau bod y diwrnod pleidleisio yn rhedeg yn dda.

Pam gweithio mewn etholiadau?

- Gallwch ennill sgiliau newydd o ran datrys problemau a gwneud penderfyniadau, wrth weithio fel tîm
- Profiad a hyfforddiant unigryw - mae pob diwrnod pleidleisio yn wahanol
- Cewch eich talu am eich amser
- Dysgwch ragor am sut mae democratiaeth yn gweithio a sut mae'ch pleidlais yn cael ei chyfrif.

Sut i wneud cais:

Diddordeb?

Ewch i wefan eich cyngor i ddod o hyd i gyfleoedd yn eich ardal.

"Mae'n fraint i mi gael helpu pobl i fwrw eu pleidlais a gwneud yn siŵr bod y diwrnod pleidleisio yn rhedeg mor esmwyth â phosibl. Dwi wedi mwynhau gweithio fel rhan o dîm, a chwrdd â llawer o bobl o bob rhan o'r gymuned. Dwi wedi cael blas ar wneud y gwaith hwn a dwi wedi bod yn gweithio bob blwyddyn ers 2018"

Andrea S

Rhagor o wybodaeth

Ewch i **comisiwnetholiadol.org.uk/gwneud-i-etholiadau-ddigwydd**